



Polisi Camddefnyddio Sylweddau - Disgyblion

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*

Dyma ein Polisi Camddefnyddio Sylweddau

Mae ein diffiniad o sylweddau yn cynnwys: meddyginiaeth, tybaco (gan gynnwys sigarennau, Esigarennau), alcohol, cyffuriau newydd ac sy'n ymddangos (a elwir weithiau yn *legal highs*), toddyddion, steroidau a chyffuriau anghyfreithlon. Mae ein polisi yn egluro beth rydym yn ei wneud am gyffuriau i annog pawb i gadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach.

Rydym yn addo:

- Rhoi gwybodaeth i'n disgyblion am gyffuriau – y pethau da a'r pethau drwg.
- Cymryd camau i gadw pawb yn ein hysgol yn iach a diogel (e.e. wrth sicrhau bod neb yn ysmegu ar safle'r ysgol a sicrhau bod moddion yn yr ysgol yn cael eu cadw'n ddiogel)
- Gwahodd asiantau allanol gydag arbenigedd penodol megis Swyddog Cyswllt yr Heddlu, Barnardos i weithio gyda'n disgyblion.

Bydd ein disgyblion yn cael cyfle i ddysgu:

- Sgiliau i ofalu am ein hunain a chadw eu hunain yn ddiogel.
- Sgiliau i wneud penderfyniadau call am ysmegu, alcohol a chyffuriau.
- Sut mae cyffuriau gwahanol yn effeithio ar iechyd ac ymddygiad.
- Beth i'w wneud os ydy pobl yn ceisio ein perswadio i wneud rhywbeth yn erbyn ein hewyllys.
- Sut i gael help os ydynt yn poeni am ymddygiad rhywun.
- Am y gyfraith a chyffuriau ac alcohol a sut bydd yr ysgol yn ymateb i ddigwyddiadau.
- Ffyrdd eraill o ymlacio a theimlo'n dda ac wedi ymlacio sydd ddim yn cynnwys defnyddio cyffuriau.

Bydd pawb yn gwybod ein bod ni'n ysgol ofalgar oherwydd:

- Byddwn yn sicrhau bod neb yn ysmegu, yn defnyddio neu yn cyflenwi cyffuriau neu alcohol ar y safle
- Yr unig gyffuriau byddwn yn eu caniatáu yn yr ysgol ydy moddion a byddwn yn sicrhau bod moddion yn cael eu cadw'n ddiogel.
- Byddwn yn ymchwilio i'r amgylchiadau os yw unrhyw un yn torri'r rheolau a byddwn yn sicrhau fod disgyblion yn cael eu cefnogi yn ogystal â rhoi cosbau mewn lle.
- Byddwn yn sicrhau fod disgyblion yn gwybod pwy all helpu os ydynt yn poeni am eu defnydd nhw neu rywun arall o gyffuriau.

Byddwn yn gweithio gyda'r bobl ganlynol i'n cefnogi:

- Rhieni
- Ein swyddog cyswllt yr heddlu
- Barnardos
- ac unrhyw un arall sy'n gallu ein helpu gydag unrhyw faterion penodol.

Polisi Ysgol Dyffryn Conwy ar Gamddefnyddio Sylweddau

Arwyddwyd:

..... (Cadeirydd y cyngor ysgol)

..... (Ysgrifennydd y cyngor ysgol)

